Amnest Rhyngwladol

# COSB MARWOLAETH YN CHINA A'R BYD

Adnodd addysg hawliau dynol ar gosb marwolaeth, yn canolbwyntio ar China. I'w ddefnyddio gyda phobl ifanc, 11–16 mlwydd oed sy'n ymchwilio i ABCh drwy Fathemateg.

**ADNODD ADDYSG HAWLIAU DYNOL**
**CHINA**

www.amnesty.org.uk/education

NODIADAU I'R TIWTOR

# YNGLŶN Â'R ADNODD HWN

Yn y wers hon bydd y myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddefnyddio'u sgil fathemategol a'r dechnoleg briodol i archwilio a dadansoddi gwybodaeth am y newid yn y defnydd o gosb marwolaeth yn China a'r byd. Byddant yn edrych am y ffyrdd mwyaf effeithiol o gyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio siartiau, graffiau a mapiau, ac yn gwneud sylwadau ar ddibynadwyedd a dilysrwydd y data y maent wedi ei gasglu. Mae modd defnyddio'r wers fel rhan o ddiwrnod thema ar China, neu broject trawsgwricwlaidd ABCh neu fel gwers ar ei phen ei hun.

## Yr adnoddau sydd eu hangen

Papur graff
Tudalennau mawr o bapur ar gyfer pob grŵp
Pennau blaen ffelt ar gyfer pob grŵp
Glud
Blue tac
Papur bras
Mynediad at gyfrifiaduron (dewisol)
Geiriadur
2 fap o'r byd (bydd amlinelliad yn ddigon)
Cwmpawdau ac onglydd
Copi o'r Holiadur

## Grŵp 1

Taflen weithgaredd grŵp 1
Taflen ffeithiau 1: **Gwledydd lle y cynhaliwyd dienyddiadau yn 1975–2006**

## Grŵp 2

Taflen weithgaredd grŵp 2
Taflen ffeithiau 2: **Dienyddiadau drwy'r byd yn 2006 a 2007**
Map o'r byd, naill ai i ludo pethau arno ar gyfer eu cyflwyniad neu i'w gopïo ar bapur siart fflip.

## Grŵp 3

Taflen weithgaredd grŵp 3
Taflen ffeithiau 3: **Y prif genhedloedd oedd yn dienyddio yn 2007**

## Grŵp 4

Taflen weithgaredd grŵp 4
Taflen ffeithiau 3: **Y prif genhedloedd oedd yn dienyddio yn 2007**
Map o'r byd, naill ai i ludo pethau arno ar gyfer eu cyflwyniad neu i'w gopïo ar bapur siart fflip.

## Grŵp 5

Taflen weithgaredd grŵp 5
Taflen ffeithiau 4: **Cosb marwolaeth yn China**

## Gweithgaredd 1
## (5 munud)

Cyflwynwch y pwnc drwy ddweud bod China yn amlwg yn y newyddion ar hyn o bryd gyda gemau Olympaidd Beijing, twf economaidd enfawr China a phryderon ledled y byd ynghylch hawliau dynol a materion eraill. Gwers yw hon am China  a chosb marwolaeth ac mae'r myfyrwyr yn mynd i ymchwilio i'r testun drwy ddefnyddio  technegau mathemategol.

Gwnewch yn siŵr fod y myfyrwyr i gyd yn deall ystyr y geiriau:
Y GOSB EITHAF
COSB MARWOLAETH

Eglurwch fod y rhan fwyaf o wledydd y byd yn y gorffennol yn cynnwys y gosb eithaf yn eu systemau cyfreithiol. Erbyn hyn nid yw'r mwyafrif llethol yn gwneud hynny.

## Gweithgaredd 2
## (15 munud)

Gofynnwch i'r myfyrwyr:
Beth ydych chi'n ei feddwl am gosb marwolaeth?
Oes yna gyfiawnhad drosti?
Os oes – ar gyfer pa droseddau y dylid ei defnyddio?
Casglwch farn o blaid ac yn erbyn.

Gofynnwch i 'r dosbarth feddwl am 10 trosedd wahanol, ac wedyn ysgrifennwch hwy ar y bwrdd du/gwyn.

Gofynnwch i bob myfyriwr ddod i'r tu blaen a graddio pob trosedd o ran ei difrifoldeb - gan roi 1 pwynt i'r troseddau lleiaf difrifol a 10 pwynt i'r troseddau mwyaf difrifol. Adiwch y pwyntiau ar gyfer pob trosedd. (Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw cofnod o'r sgorau gan y bydd y rhain yn cael eu defnyddio gan grŵp 5).

Rhowch gopi o'r Holiadur i bob myfyriwr. Gofynnwch iddynt roi tic wrth y troseddau yn y rhestr y maent yn teimlo sy'n haeddu cosb marwolaeth. Casglwch yr holiaduron a chadwch hwy i'w defnyddio fel data gan Grŵp 5.

## Gweithgaredd 3
## (20 munud)

Rhannwch y dosbarth yn 5 grŵp.

Rhowch daflen weithgaredd wahanol i bob grŵp a'r taflenni ffeithiau a'r adnoddau perthnasol. Rhowch y sgorau o'r bleidlais 'troseddau mwyaf difrifol' i Grŵp 5 a'r holiaduron a gwblhawyd ar droseddau sy'n haeddu cosb marwolaeth. Gwnewch yn siwr fod gan bob grŵp nifer o dudalennau o bapur graff, cwmpodau ac onglyddion ac yn y blaen.

Gofynnwch i'r grwpiau weithio drwy'r tasgau ar eu taflen weithgaredd. Efallai y bydd o gymorth i awgrymu eu bod yn rhannu'r tasgau rhyngddynt.

Mae modd gwneud y gweithgareddau â llaw, neu drwy ddefnyddio cyfrifiadur.

## Gweithgaredd 4
## (10 munud)

Bydd pob grŵp yn cyflwyno'i gasgliadau a'i farn yn gyflym i weddill y dosbarth, gan ddefnyddio naill ai siartiau fflip neu Powerpoint.

## Gweithgaredd 5
## (10 munud)

Trafodwch:
Beth ydych chi wedi ei ddysgu am gosb marwolaeth ledled y byd ac yn China'n arbennig?
Beth ydych chi wedi ei ddysgu am y defnydd o ffigurau a'u dibynadwyedd?
Beth ydych chi'n ei feddwl am y defnydd o gosb marwolaeth yn China/yn y byd yn ei gyfanrwydd? Oes rhywun wedi newid ei farn? Os oes, pam?

# GRŴP 1
## TAFLEN WEITHGAREDD

Defnyddiwch y wybodaeth ar **Daflen Ffeithiau** 1, Gwledydd lle y cynhaliwyd dienyddiadau, i greu siart bar yn dangos y nifer newidiol o ddienyddiadau a gyflawnwyd gan ranbarthau'r byd dros y 40 mlynedd diwethaf.

Trafodwch:
Bwth yw'r duedd fyd-eang gyffredinol?
Pa batrymau rhanbarthol ellwch chi eu gweld?
Ellwch chi feddwl am unrhyw resymau am y patrwm hwn? (D.S.: Y wybodaeth sydd ar gael yn unig yw'r data yma. Efallai nad yw rhai gwledydd yn ymddangos yn amlwg ar restrau cynharach oherwydd nad oedd neb yn gwybod beth oedd yn mynd ymlaen yno).

Paratowch gyflwyniad i ddangos y wybodaeth hon a'ch barn chi i weddill y dosbarth. Mae gennych chi bapur siart fflip a map o'r byd i'ch cynorthwyo.

# GRŴP 2
## TAFLEN WEITHGAREDD

Defnyddiwch y wybodaeth ar **Daflen Ffeithiau 2**, Dienyddiadau drwy'r byd yn 2006 a 2007, i wneud 2 siart pei i ddangos nifer y dienyddiadau a gyflawnwyd gan yr 8 gwlad a restrwyd fel cyfran o'r holl ddienyddiadau a gyflawnwyd drwy'r byd i gyd yn 2006 a 2007. Bydd arnoch angen 9 adran yn eich siartiau pei, i gynnwys un adran ar gyfer y dienyddiadau a gyflawnwyd mewn gwledydd sydd heb eu rhestru.

Trafodwch:
Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth y mae eich siartiau pei wedi ei sylfaenu arni?
Pa newidiadau ellwch chi eu gweld rhwng 2006 a 2007? Sut byddech chi'n egluro'r rhain?

Paratowch i gyflwyno'ch siartiau pei a'ch barn chi i weddill y dosbarth.

## GRŴP 3
## TAFLEN WEITHGAREDD

Gan ddefnyddio'r wybodaeth ac ystadegau dienyddiadau a phoblogaeth a ddangosir ar **Daflen Ffeithiau 3**, Y prif genhedloedd oedd yn dienyddio yn 2007, gwnewch siartiau bar neu siartiau pei i ddangos:
a) cyfanswm y dienyddiadau a gyflawnwyd gan bob un o'r prif wledydd oedd yn dienyddio yn y byd yn 2007
b) nifer y dienyddiadau a gyflawnwyd y *pen o'r boblogaeth* gan y 7 prif wlad oedd yn dienyddio yn 2007

Trafodwch:
Beth mae eich graffiau'n ei ddatgelu?
Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth hon a'r ystadegau hyn?

Paratowch gyflwyniad i ddangos eich casgliadau i weddill y dosbarth.

## GRŴP 4
## TAFLEN WEITHGAREDD

Defnyddiwch y wybodaeth ar **Daflen Ffeithiau 3**, Y prif genhedloedd oedd yn dienyddio yn 2007, i greu siart bar yn dangos yr holl droseddau marwol gwahanol ar echelin X a nifer y gwledydd lle mae'r troseddau marwol yn cael eu gweithredu ar echelin Y. Bydd rhaid i chi adael China allan gan fod cynifer o droseddau marwol yno, ond crybwyllwch hynny yn eich cyflwyniad.

Trafodwch:
Pa droseddau a gosbir drwy farwolaeth?
Pa ddulliau a ddefnyddir?
Oes unrhyw beth yn eich synnu chi?
Ydy'r cosbau'n ymddangos yn deg i chi?

Paratowch fap i ddangos y gwahanol ddulliau o ddienyddio a ddefnyddir. Mae gennych chi fap o'r byd i'ch cynorthwyo. Un awgrym yw defnyddio eiconau (lluniau syml) i gynrychioli'r gwahanol ddulliau o ddienyddio a ddefnyddir mewn gwahanol wledydd.

Cyflwynwch eich siart bar, y map a'ch barn chi i weddill y dosbarth.

# GRŴP 5
## TAFLEN WEITHGAREDD

Cynhyrchwch siart bar i ddangos y sylwadau a gasglwyd gan y dosbarth ynghylch difrifoldeb troseddau gwahanol. Defnyddiwch y sgorau cyfansymiol ar gyfer pob trosedd a nodwyd.

Gan ddefnyddio'r holiaduron a gasglwyd gan y dosbarth, cynhyrchwch siart bar i ddangos barn y dosbarth ynghylch pa droseddau yn yr holiadur a ddylai gael eu cosbi drwy farwolaeth a pha rai na ddylai.

Darllenwch **Daflen Ffeithiau 4**, Cosb marwolaeth yn China.
Gall yr holl droseddau a restrwyd yn rhestr yr holiadur gael eu cosbi drwy farwolaeth yn China (April 2008).

Trafodwch:
Ydy hyn yn syndod i chi?
Ydych chi'n meddwl bod cyfiawnhad dros y defnydd o gosb marwolaeth yn China?

Paratowch i gyflwyno'ch graffiau a'r hyn yr ydych wedi ei ddysgu o Daflen Ffeithiau 4 i weddill y dosbarth

# TAFLEN WYBODAETH 1
## GWLEDYDD LLE Y CYFLAWNWYD DIENYDDIADAU

### DIENYDDIADAU YN 1975/6

| AFFRICA | AMERICA A'R CARIBÎ | ASIA | EWROP | Y DWYRAIN CANOL |
|---|---|---|---|---|
| Benin | Antigua | Affganistan | Albania | Bahrain |
| Camerwn | Yr Ariannin | Bangladesh | Belarws | Iran |
| Gweriniaeth | Bahamas | Burma (Myanmar) | Bwlgaria | Irac |
| Canol Affrica | Bermuda | China | Czechoslovakia | Gwlad yr Iorddonen |
| Chad | El Salvador | India | Hwngari | Kuwait |
| Yr Aifft | Grenada | Indonesia | Gwlad Pwyl | Libanus |
| Guinea'r Cyhydedd | Guatemala | Japan | Sbaen | Saudi Arabia |
| Ethiopia | Guyana | Kampuchea (Cambodia) | Yr Undeb Sofietaidd | Syria |
| Ghana | Haiti | Malaysia | Yugoslavia | Yr Emiraethau Arabaidd Unedig |
| Kenya | Jamaica | Gogledd Korea | | Yemen |
| Malawi | Periw | Pacistan | | |
| Mali | Unol Daleithiau America | Ynysoedd Philippines | | |
| Namibia | | Singapôr | | |
| Niger | | De Korea | | |
| Nigeria | | Sri Lanca | | |
| Sierra Leone | | Taiwan | | |
| Somalia | | Gwlad Thai | | |
| De Affrica | | Fiet-nam | | |
| Rhodesia (Zimbabwe) | | | | |
| Zaire (Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo) | | | | |

### DIENYDDIADAU YN 1985/6

| AFFRICA | AMERICA A'R CARIBÎ | ASIA | EWROP | Y DWYRAIN CANOL |
|---|---|---|---|---|
| Algeria | Antigua | Affganistan | Belarus | Bahrain |
| Angola | Bahamas | Bangladesh | Czechoslovakia | Iran |
| Benin | Belize | Burma (Myanmar) | Hwngari | Irac |
| Camerwn | Cuba | China | Gwlad Pwyl | Gwlad yr Iorddonen |
| Comoros | Dominica | India | Yr Undeb Sofietaidd | Libanus |
| Yr Aifft | Guatemala | Indonesia | Yugoslavia | Saudi Arabi |
| Ethiopia | Guyana | Japan | | Syria |
| Ghana | St Lucia | Laos | | Yr Emiraethau Arabaidd Unedig |
| Guinea Bissau | Unol Daleithiau America | Malaysia | | Yemen |
| Kenya | | Pacistan | | |
| Liberia | | Singapôr | | |
| Libya | | Taiwan | | |
| Mauritania | | Gwlad Thai | | |
| Mauritius | | Fiet-nam | | |
| Mozambique | | | | |
| Namibia | | | | |
| Nigeria | | | | |
| Somalia | | | | |
| De Affrica | | | | |
| Y Swdan | | | | |
| Uganda | | | | |
| Zimbabwe | | | | |

# TAFLEN WYBODAETH 1 PARHAD
# GWLEDYDD LLE Y CYFLAWNWYD DIENYDDIADAU

## DIENYDDIADAU YN 1995/6

| AFFRICA | AMERICA A'R CARIBÎ | ASIA | EWROP | Y DWYRAIN CANOL |
|---|---|---|---|---|
| Comoros<br>Yr Aifft<br>Nigeria<br>Somalia<br>Uganda<br>Zimbabwe | Bahamas<br>Guatemala<br>Guyana<br>Unol Daleithiau America | Affganistan<br>China<br>India<br>Japan<br>Malaysia<br>Mongolia<br>Pacistan<br>Singapôr<br>Taiwan<br>Gwlad Thai<br>Fiet-nam | Belarus<br>Kazakstan<br>Kyrgyzstan<br>Latfia<br>Turkmenistan<br>Y Ffederasiwn Rwsiaidd<br>Ukrain<br>Uzbekistan | Bahrain<br>Iran<br>Irac<br>Gwlad yr Iorddonen<br>Kuwait<br>Libanus<br>Saudi Arabia<br>Syria<br>Yr Emiraethau Arabaidd Unedig<br>Yemen |

## DIENYDDIADAU YN 2006

| AFFRICA | AMERICA A'R CARIBÎ | ASIA | EWROP | Y DWYRAIN CANOL |
|---|---|---|---|---|
| Botswana<br>Yr Aifft<br>Guinea'r Cyhydedd<br>Somalia<br>Y Swdan<br>Uganda | Unol Daleithiau America | Bangladesh<br>Indonesia<br>Japan<br>Korea (Gogledd)<br>Malaysia<br>Mongolia<br>Pacistan<br>Singapôr<br>Fiet-nam | | Bahrain<br>Iran<br>Irac<br>Gwlad yr Iorddonen<br>Kuwait<br>Saudi Arabia<br>Syria<br>Yemen |

# TAFLEN WYBODAETH 2
## DIENYDDIADAU LEDLED Y BYD YN 2006 A 2007

Yn 2006, yn ôl ffigurau swyddogol, cyflawnwyd 1,591 o ddienyddiadau mewn 25 gwlad. Yn 2007 cafodd o leiaf 1,252 o bobl eu dienyddio mewn 24 gwlad.

Cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r dienyddiadau hyn yn yr 8 gwlad a restrir isod. (Cred Amnest Rhyngwladol fod y gwir niferoedd yn y gwledydd hynny sydd wedi eu dynodi â * yn llawer uwch na'r rhai a gydnabuwyd yn gyhoeddus. Yn China mae ystadegau cosb marwolaeth yn gyfrinach y wladwriaeth.)

| 2006 | 2007 |
|---|---|
| China 1010* | China 470* |
| Iran 177 | Iran 317* |
| Pacistan 82 | Saudi Arabia 143* |
| Irac 65* | Pacistan 135+ |
| Y Swdan 65 | UDA 42 |
| UDA 53 | Irac 33* |
| Saudi Arabia 39* | Fiet-nam 25* |
| Fiet-nam 14* | Y Swdan 7* |

# TAFLEN WYBODAETH 3
## Y PRIF GENHEDLOEDD OEDD YN DIENYDDIO YN 2007

Yn y gwledydd hynny lle mae nifer y dienyddiadau wedi ei ddynodi â*, cred Amnest Rhyngwladol fod y gwir niferoedd mewn gwirionedd yn llawer uwch.

**IRAN**
**Dienyddiadau**: 317*
**Poblogaeth**: 65 miliwn
**Dulliau dienyddio**: Crogi (drwy hongian oddi ar graen); llabyddio ; gwthio dros glogwyn.
**Troseddau marwol**: Llofruddiaeth, troseddau cyffuriau, godineb, puteindra, gweithredoedd gwrywgydiol, bod yn 'llygredig ar y ddaear'; bod 'yn elyn i Dduw', (bod yn elyniaethus i Dduw, gwrthwynebu gair Duw).

**SAUDI ARABIA**
**Dienyddiadau**: 143*
**Poblogaeth**: 28 miliwn
**Dulliau dienyddio**: Dienyddio cyhoeddus â chleddyf; llabyddio; sgwad saethu.
**Troseddau marwol**: : llofruddiaeth, terfysg (gweithredoedd neu iaith a allai arwain at wrthryfel yn erbyn y llywodraeth), treisio, godineb, gwrywgydiaeth, môr-ladrad, dwyn car, troseddau cyffuriau, dewiniaeth.

**UDA**
**Dienyddiadau**: 42
**Poblogaeth**: 301 miliwn
**Dulliau dienyddio**: Pigiad angheuol (37 talaith); cadair drydan (10 talaith); siambr nwy (4 talaith); sgwad saethu (3 talaith); crogi (3 talaith).
**Troseddau marwol**: llofruddiaeth.

**CHINA**
**Dienyddiadau**: 470*
**Poblogaeth**: 1320 miliwn
**Dulliau dienyddio**: Un ergyd o wn i'r pen neu'r gwddf; pigiad angheuol.
**Troseddau marwol**: 68 o droseddau gwahanol am gynllunio neu gyflawni amrediad eang o droseddau treisgar neu ddi-drais gan gynnwys lladrata, llygru a throseddau economaidd.

**IRAC**
**Dienyddiadau**: 33*
**Poblogaeth**: 27 miliwn
**Dulliau dienyddio**: Sgwad saethu, crogi.
**Troseddau marwol**: llofruddiaeth, aelodaeth o grŵp arfog, herwgipio, cludo cyffuriau.

**PACISTAN**
**Dienyddiadau**: 135*
**Poblogaeth**: 164 miliwn
**Dulliau dienyddio**: crogi, llabyddio.
**Troseddau marwol**: llofruddiaeth, herwgydio, herwgipio, delio mewn arian anghyfreithlon, ysbeilio, lladrata, delio mewn arfau, gwerthu cyffuriau, godineb, cablu.

**FIETNAM**
**Dienyddiadau**: 25*
**Poblogaeth**: 82 miliwn
**Dulliau dienyddio**: Sgwad saethu
**Troseddau marwol**: 29 o droseddau gan gynnwys llofruddiaeth, lladrad arfog, puteindra, pornograffeg, troseddu cysylltiedig â chyffuriau, troseddu economaidd.

TAFLEN WAITH Y MYFYRIWR

# TAFLEN WYBODAETH 4
## COSB MARWOLAETH YNG NGWERINIAETH POBL CHINA

Mae awdurdodau China ar hyn o bryd yn defnyddio cosb marwolaeth fel dull o gosbi ar gyfer oddeutu 68 o wahanol droseddau.

Defnyddir dau ddull o ddienyddio. Y dull mwyaf cyffredin fu drwy saethu - anelir un ergyd at gefn y pen. Fodd bynnag, Mae pigiad angheuol, a gyflwynwyd yn 1997 ac sy'n golygu lladd carcharor drwy chwistrellu gwenwyn, yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol.

Mae gwybodaeth ynghylch yr union niferoedd o bobl sy'n cael eu dienyddio yn China wedi ei dosbarthu fel cyfrinach y wladwriaeth. Cyhoeddir rhai achosion yn y wasg. Rhoddir hysbysiad am rai mewn gorsafoedd heddlu neu cânt eu cadarnhau ar fyrddau negeseuon ar y rhyngrwyd gyda thic mewn coch pan fydd y carcharor wedi cael ei ddienyddio. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn amcangyfrif gwir nifer y dienyddiadau. Er mai rhif swyddogol y dienyddiadau yn China yn 2007 oedd 470, cred Amnest Rhyngwladol a chymdeithasau iawnderau dynol eraill fod China mewn gwirionedd wedi dienyddio hyd at 6,000 o bobl y flwyddyn honno - neu 16 y dydd.

Mae modd cosbi oddeutu 68 o wahanol droseddau yn China drwy ddienyddio, ac mae rhai o'r rhain yn droseddau nad ydynt yn droseddau marwol yn unrhyw wlad arall yn y byd. Maent yn cynnwys troseddau y gwnaed ymgais i'w cyflawni ond na chafodd eu cyflawni mewn gwirionedd, troseddau economaidd, mân droseddau cyffuriau a throseddau cymharol fychan a gyflawnwyd fwy nag unwaith gan yr un troseddwyr megis lladrata neu achosi anaf bychan.

Nid yw'r gosb marwolaeth yn China yn cael ei defnyddio yn Hong Kong na Macau.

TAFLEN WAITH Y MYFYRIWR

# HOLIADUR

Yn y golofn ar y dde, rhowch dic wrth y troseddau, os unrhyw un, yn eich barn chi, ddylai gael eu cosbi drwy ddienyddio?

| | |
|---|---|
| CYNORTHWYO DYN, SYDD WEDI EI ARESTIO, I DDIANC | |
| RHOI AR DÂN | |
| CYNORTHWYO POBL I GROESI'R FFIN I DIBET | |
| YMGAIS I LADRATA | |
| LLWGRWOBRWYO SWYDDOGION, DERBYN LLWGRWOBRWYON | |
| CREU BWLCH MEWN FFOSYDD DRAENIO | |
| ACHOSI NIWED I EIDDO'R WLADWRIAETH | |
| CYNLLWYNIO GYDA'R GELYN | |
| DOSBARTHU PORNOGRAFFEG | |
| GWERTHU CYFFURIAU | |
| FFUGIO NEU WERTHU ANFONEBAU TAW | |
| CODI ARIAN DRWY DWYLL | |
| RHOI CYFRINACHAU'R WLADWRIAETH I WLEDYDD ESTRON | |
| CASGLU BWYD | |
| HWLIGANIAETH | |
| DELIO MEWN ARIAN ANGHYFREITHLON | |
| YSGOGI I YSBEILIO | |
| LLADD PANDA | |
| LLOFRUDDIAETH | |
| CYNLLUNIO I DDYMCHWEL Y LLYWODRAETH BRAD | |
| CYNLLUNIO I DDWYN CREIRIAU DIWYLLIANNOL | |
| CYNHYRCHU NEU WERTHU MEDDYGINIAETH FFUG | |
| PUTEINDRA | |
| TREISIO | |
| LLADRAD GYDA THRAIS | |
| DIFRODI OFFER CYFATHREBU | |
| YMGYRCHU DROS ANNIBYNIAETH I RANNAU O CHINA (RHANNU, GWAHANU) | |
| GWERTHU BWYDYDD NIWEIDIOL | |
| SEFYDLU UNDEB LLAFUR ANNIBYNNOL | |
| SMYGLO CYNNYRCH ANIFEILIAID PRIN | |
| SMYGLO GWASTRAFF SOLID | |
| YSBÏO | |
| LLADRAD BYCHAN, e.e. DWYN BEIC | |
| DWYN PETROL | |
| OSGOI TRETHI | |
| GWERTHU MERCHED, RHEOLI PUTEINIAID | |
| BRADWRIAETH | |
| YSGRIFENNU SLOGANAU AR WALIAU | |